HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE




# Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned





## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## 31 Mawrth 2020

GOGLEDD CYMRU
PACT
NORTH WALES

yn ymgorffori **Trechu Trosedd**

Rhif Elusen Gofrestredig: 1071628

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU
making North Wales the **safest** place in the UK

# Cynnwys


Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol ..... 2

Adroddiad y Cadeirydd ..... 3

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ..... 4

Adolygiad Gweithgarwch ..... 5

Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ..... 10

Datganiad Gweithgarwch Ariannol ..... 11

Mantolen ..... 12

Nodiadau ar y Cyfrifon ..... 13

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ..... 18

Atodiad ..... 19

Diolchiadau ..... 30










# Aelodau'r Bwrdd ac Ymgynghorwyr Proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd Dros Dro** | Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| **Is-gadeirydd** | Steve Thomas, Swyddog Gweithredol Materion Llywodraethol, Airbus UK |
| **Bwrdd o Ymddiriedolwyr** | David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus) |
| | David Catherall DL |
| | Henry Fetherstonhaugh, OBE, Arglwydd Raglaw Clwyd |
| | E.F. Lloyd Fitzhugh OBE., OStJ., JP, DL |
| | Paul Hinchliffe |
| | Patricia Hughes DL |
| | Y Foneddiges Janet Jones JP, DL |
| | Dr. Peter Harlech Jones DL |
| | Ashley Rogers |
| | Stephanie Catherall Uchel Siryf Clwyd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/19 tan 31/03/20) |
| | Susan Jones Uchel Siryf Gwynedd (Yn rhinwedd ei swydd 01/04/19 tan 31/03/20) |
| **Rheolwr y Prosiect / Cydlynydd Trechu Trosedd** | David Evans |
| **Cyfeiriad** | Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ |
| **Bancwyr** | HSBC Bank PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, LL30 2SF |
| **Archwilydd Annibynnol** | Cyfrifwyr Siartredig Gardners, Tŷ Brynffordd, 21 Stryd Brynffordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7RD |

# Adroddiad y Cadeirydd

Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn mae deuddeg mis prysur iawn wedi cwtogi'n enbyd ac yn sydyn gan sefyllfa'r coronafeirws sy'n gwaethygu. Cafodd llawer o'n prosiectau a'n digwyddiadau eu canslo ar fyr rybudd a gafodd effaith ddinistriol yn dilyn misoedd o gynllunio a pharatoi.

Dioddefodd Cyfiawnder mewn Diwrnod yn fawr. Roeddem yn gallu cyflwyno dim ond pythefnos o raglen 2020 a oedd eto'n ymdrin â'r bygythiad cynyddol o Linellau Cyffuriau a throseddau cyllyll i'n pobl ifanc. Gwnaeth Theatr Clwyd, dan arweiniad Emyr John (Cyswllt Ymgysylltiad Creadigol) ddyfeisio gweithdy deifiol wedi'i anelu at atal pobl ifanc rhag dioddef y problemau hyn a mynd i'r system cyfiawnder troseddol. Yn ystod y bythefnos roeddem yn gallu gweithio gydag ysgolion gwnaethom dderbyn adborth rhagorol. Gallwch ddarllen rhai o'r sylwadau yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n dilyn.

Cafodd ein dwy noson Gwobrau Blynyddol yr Uchel Siryf eu heffeithio hefyd yn 2020. Rwyf yn gwybod fod gan Stephanie Catherall yng Nghlwyd a Susan Jones yng Ngwynedd gynlluniau gwych mewn lle er mwyn cydnabod gwaith pobl ifanc a gwirfoddolwyr yn ein cymunedau. Hoffwn ddiolch yn gyhoeddus i Stephanie a Susan yma am yr ymroddiad a'r brwdfrydedd maent wedi'i ddangos yn ystod eu blwyddyn briodol yn y swydd ac am eu gwaith codi arian ar ran Trechu Trosedd a sefydliadau cymunedol eraill.

Mae eleni wedi gweld llawer o gymunedau'n elwa o gyllid PACT drwy eu Tîm Cymdogaethau Diogelach lleol. Mae llawer wedi'i wneud drwy ein Cronfa Grantiau Bach llwyddiannus sydd ar gael gennym i Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu.

Mae ei SCCH yn parhau i weithio'n ddiflino o fewn ein cymunedau yn cynorthwyo i'n cadw'n ddiogel. Rydym yn ddyledus iddynt am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd i wneud bob prosiect yn llwyddiant yn eu cymunedau. Efallai eich bod wedi gweld enghreifftiau o rai o'r prosiectau hyn ar eu tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Byddant yn parhau i wneud yn y flwyddyn i ddod.

Byddwch yn gallu cael manylion am y grwpiau cymunedol a'r SCCH a gynorthwywyd eleni yn yr atodiad i'r cyfrifon.

Ym mis Chwefror roeddem yn falch o groesawu Ashley Rogers i'n bwrdd. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gydag ef dros y blynyddoedd nesaf. Bydd Ashley yn cymryd rôl Cadeirydd o fis Ebrill 2020. Gwyddwn y bydd yn dod a'i sgiliau, ei wybodaeth a'i syniadau newydd i PACT. Bydd yn ymroi i ddatblygiad a dylanwad parhaus PACT yn ein cymunedau.

Ni fyddai dim o'n gwaith yn bosibl heb gymorth gweithredol Heddlu Gogledd Cymru, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ymroddiad Ymddiriedolwyr a'r partneriaethau sydd wedi'u creu gyda llawer o sefydliadau o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ledled Gogledd Cymru. Rwyf yn sicr y bydd hyn yn parhau o dan stiwardiaeth Ashley.

Yn olaf hoffwn ddiolch i'n hymddiriedolwyr gwirfoddol am eu holl waith dros y flwyddyn ddiwethaf ac am wneud fy rôl dros dro fel Cadeirydd mor braf. Byddaf wrth gwrs yn parhau i eistedd ar y bwrdd ymddiriedolwyr ac edrychaf ymlaen at gefnogi ein Cadeirydd newydd a darllen ei adroddiad i chi'r flwyddyn nesaf.

**Carl Foulkes**

**Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.**
**Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Ymddiriedolwyr PACT**

**Mai 2020**














# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno'u hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

## Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllaw a geir yng nghanllaw cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth. Maent wedi gwneud hefyd wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol a gosod y polisi gwneud grantiau ar gyfer y flwyddyn. Ym mhob gweithgarwch, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio codi proffil Diogelwch Cymunedol. Drwy warchod pobl ac eiddo, mae'n lleihau'r ofn o drosedd yn sylweddol gan felly gwella ansawdd bywyd drwy gydol y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd.
- Hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd trigolion Gogledd Cymru drwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu pobl Gogledd Cymru ym mhob mater sy'n berthnasol i gamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill gan felly gynorthwyo lleihau troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau.
- Datblygu rhaglenni addysgiadol er budd pobl ifanc ac eraill.

## Cyfansoddiad

Cafodd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ei lansio ar 14 Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

## Dogfennau Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei Llywodraethu gan y Datganiad o Ymddiriedolaeth (Gweithred Ymddiriedolaeth) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

## Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad Ymddiriedaeth, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, y sector gwirfoddol, y sector busnes, ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

## Cyfeiriad

Fe ymgymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfa ganlynol:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

## Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn yDatganiad Ymddiriedolaeth fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed polisi Cronfeydd wrth Gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiriedolaeth gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £500,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn uwch na hyn yna byddai angen Archwiliad llawn.

# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Wrth gyflawni ei holl weithgareddau mae PACT yn ymdrechu i gefnogi amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd, lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynorthwyo i wneud Gogledd Cymru yn lle diogelach fyth i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

## Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu

Mae Ymddiriedolwyr PACT yn parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Cronfa Deddf Elw'r Heddlu yn cynnwys arian y mae'r Heddlu wedi'i gael o werthu eiddo a ddarganfuwyd ac eiddo sy'n cael ei atafaelu a'i werthu yn dilyn gorchymyn llys. Prif nod y gronfa ydy cefnogi prosiectau lleol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau gwirfoddol/elusennol ac sydd er budd cymunedau Gogledd Cymru yn unig.

Mae arian Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu yn caniatáu PACT i gefnogi swyddogion a chymunedau lleol.

Eleni, drwy'n Prif Gronfa Grantiau, mae PACT wedi gallu cynorthwyo ystod amrywiol o brosiectau. Maent yn cynnwys cynorthwyo pobl ifanc yn Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash, Wrecsam; Chwilio ac Achub Mynydd Dyffryn Ogwen; Youth Shedz Cymru; murlun ieuenctid yng Nghaernarfon; Dinbych yn ei Blodau; prosiect unigryw gyda Cruse Bereavement i gynorthwyo pobl ifanc sydd newydd gael profedigaeth; a phobl ifanc Clwb Bocsio Bwcle.

Unwaith eto, mae ein Cronfa Grantiau Bach yn parhau i fod yn boblogaidd gyda'n Timau Cymdogaethau Diogelach. Mae'r Gronfa, sy'n caniatáu swyddogion ymgeisio am hyd at £250, yn awr yn ei 19eg blwyddyn.

CGI

Mae PACT yn parhau i dderbyn nawdd gan CGI UK Ltd i gynorthwyo ein Cronfa Grantiau Bach, gan alluogi SCCH i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol sy'n cynorthwyo'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Nick Hewitt, Uwch Reolwr Cyflawni Gwasanaeth, a'i gydweithwyr sef Jennifer Williams, Elin Horman a Mike Rose sydd i gyd yng Ngogledd Cymru am eu hymroddiad i gefnogi ein hamcanion. Fe symudodd Nick ymlaen i swydd newydd ddechrau 2020. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd gyda CGI.

*Mae rhestr lawn o'r prosiectau hyn a ariennir gan ein Prif Gronfa Grantiau a Chronfa Grantiau Bach, i'w gweld yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol.*



## Cyfiawnder mewn Diwrnod

cyfiawnder mewn diwrnod

Dychwelodd ein rhaglen arobryn Cyfiawnder mewn Diwrnod eto yn 2020.

Prosiect blaenllaw gan PACT (Ymddiriedolaeth Gymunedol Heddlu Gogledd Cymru) yw'r rhaglen hon mewn partneriaeth â Theatr Clwyd. Mae'n cael ei gefnogi eleni am y tro cyntaf gan nawdd gan Ymddiriedolaeth Moondance, ynghyd â nawdd gan Gronfa Atal Trais Difrifol.

Unwaith eto, thema'r gweithdy oedd Llinellau Cyffuriau sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o gangiau cyffuriau sy'n targedu pobl ifanc bregus a'u darbwyllo i symud cyffuriau i mewn ac allan o bentrefi a threfi bach.

Mae'r gweithdy yn dilyn bachgen ysgol, Connor, sydd mewn dyled i gang o'r ddinas sy'n cyflenwi heroin a chocên. Mae Connor yn cael ei orfodi i gludo cyffuriau i'r gang ond yn cael ei arestio a'i gyhuddo o droseddau difrifol.

Mae'r ddrama ryngweithiol yn cynyddu gwybodaeth pobl o'r system gyfiawnder troseddol a sut y gallai gael effaith arnynt fel troseddwyr a dioddefwyr, er mwyn eu dysgu am ganlyniadau trosedd. Mae'r cynhyrchiad realistig yn galluogi disgyblion i weld, clywed a barnu canlyniadau posib gweithrediadau eu cyfoedion, yn cynnwys ymddangosiad yn y llys, dedfrydu a charcharu.













# Adolygiad o Weithgareddau - Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Drwy ddilyn stori rhywun sydd yr un oedran â nhw, y nod yw anfon neges gref er mwyn eu hatal rhag troseddu.

Eleni roeddem wrth ein bodd yn croesawu Eternal Community Media i wneud rhywfaint o waith gyda'r rhaglen. Gwnaethant gynhyrchu cyfres o ffilmiau 'pennau parablus' a ddangoswyd ac a drafodwyd drwy gydol y dydd. Roedd y rhain yn cynnwys cyn-droseddwyr a ddywedodd wrth y gynulleidfa drwy ffilm am eu profiadau o droseddau a'r canlyniadau y gwnaethant eu hwynebu bob un oherwydd eu troseddau. Profodd y rhain i wneud argraff fawr ar ein pobl ifanc a oedd yn bresennol.

Dylai 2020 fod wedi gweld y rhaglen yn ymgysylltu gyda 45 o ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru, ac oddeutu 880 o bobl ifanc. Fodd bynnag, fe wnaeth pandemig y coronafeirws atal y rhaglen a bu rhaid i ni orfodi i ganslo ein rhaglen pum wythnos ar ôl pythefnos.

Er cwtogi rhaglen 2020 yn annisgwyl, gwnaethom dderbyn adborth gwych (isod) yn ystod y bythefnos. Rydym yn anelu i ddychwelyd yn gryfach nag erioed yn 2021.

Detholiad o sylwadau gan gyfranogwyr yn 2020:

“Fe wnes i fwynhau 'Cyfiawnder mewn Diwrnod' yn fawr iawn heddiw yn Llandudno fel sy'n arferol ac rwyf wrth fy modd fod y rhaglen werth chweil hon yn parhau.” - David Subacchi YH

"Addysg wych a gwybodus ar bwnc cyfredol pwysig.” - SCCH Charlotte Carr ac Athrawon, Ysgol Uwchradd Y Fflint

"Gwnaethom ganfod y clipiau fideo gan gyn-droseddwyr yn ychwanegiad gwych at y gweithdy.” - Uned Cyfeirio Disgyblion Penrhos Avenue

“Mae hyn yn eich cynorthwyo i gael darlun o'r hyn sy'n digwydd go iawn ac yn gwneud i chi gadw draw oddi wrtho.” - Disgybl o Ysgol Bro Idris, Dolgellau

*Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn nod masnach cofrestredig Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned. Mae hawlfraint y sgript yn eiddo i Emyr John, Theatr Clwyd.*

## 'Eich Cymuned, Eich Dewis'




Unwaith eto anogwyd pobl ledled Gogledd Cymru i bleidleisio am eu hoff gynlluniau atal troseddau – gan ddefnyddio arian a atafaelwyd gan droseddwyr.

Roedd £40,000 ar gael gyda dau grŵp o bob sir i fod i gael eu gwobrwyo.

Enillodd y grwpiau llwyddiannus £2,500 yr un o botyn arian a sefydlwyd gan Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Yn ogystal, gwnaeth dau grŵp sy'n gweithio mewn tair sir neu fwy dderbyn grant o £5,000 yr un.

Lansiwyd y cynllun 'Eich Cymuned, Eich Dewis' eleni gan Mr Jones a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT).

Eto cafodd ei ariannu ar y cyd gan arian a gasglwyd drwy'r Ddeddf Enillion Trosedd, gan ddefnyddio arian a atafaelwyd gan droseddwyr, a Chronfa'r Comisiynydd.

Dywedodd y Comisiynydd Jones: “Canolbwynt cronfa Eich Cymuned Eich Dewis eleni yw atal y bygythiad i'n cymunedau sy'n dod oddi wrth gangiau cyffuriau o'r ardaloedd trefol ac sy'n defnyddio neu'n camfanteisio ar bobl ifanc i werthu cyffuriau yn ein cymunedau.

“Y nod yw creu gwytnwch mewn cymunedau i atal y bygythiad hwn, ac atal grwpiau trosedd trefnedig rhag treiddio i'n trefi a phentrefi a chamfanteisio a gorfodi pobl ifanc bregus i werthu cyffuriau. Yn ei hanfod, rydym yn siarad am gosbi gangiau Llinellau Cyffuriau.

“Pa well ffordd i ddefnyddio enillion trosedd na chynorthwyo cymunedau i greu gwytnwch ymysg







eu pobl ifanc eu hunain.

“Mae elfen o haeddiant mewn defnyddio arian a gafwyd drwy drosedd i ymdrin â’r broblem o droseddau yn ein cymunedau.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett: “Mae’r gwobrau hyn yn bwysig oherwydd eu bod yn cynnwys y gymuned. Mae’r cymunedau’n penderfynu lle gall yr arian gael ei wario orau.

“Mae llawer o’r hyn a ariannwn wedi’i anelu at roi rhywbeth i bobl ifanc gymryd rhan yn hytrach na chael eu temtio i gyflawni trosedd neu ymbleseru mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym eisiau cynorthwyo cymunedau fel eu bod yn gallu bod yn gyfrifol am eu hardaloedd eu hunain.

“Gall grwpiau cymunedol llai wneud llawer iawn i wneud cymunedau’n fwy diogel, lleihau trosedd a lleihau aildroseddu. Mae hefyd yn anfon neges dda i’r cymunedau oherwydd ei fod yn dangos ein bod yn gwrando arnynt.

“Y nod yw creu gwytnwch mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru i gynorthwyo pobl fregus i atal pethau fel Llinellau Cyffuriau.

“Dwi’n meddwl na all troseddoldeb dyfu weithiau mewn ardaloedd lle na wnaiff y gymuned adael iddo wneud. Rwy’n cael boddhad arbennig o wybod fod rhan o’r nawdd yn dod o enillion trosedd. Mae arian a gymerir o bocedi troseddwyr a’u henillion twyll gan y llysoedd yn dychwelyd i fentrau cymunedol.

“Mae’n troi arian drwg i arian da. Mae’n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol oherwydd mai pobl leol sy’n adnabod a deall eu problemau lleol a sut i’w datrys. Mae hon yn agwedd gadarnhaol iawn i’r cynllun ac mae’n cynorthwyo i ddod â ni’n agosach at y cymunedau hynny.”

*Ceir rhestr lawn o enillwyr gwobrau 2020 yn yr Atodiad.*

**trechu trosedd**
**gogledd cymru**

Lansiwyd Trechu Trosedd Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru yn 2002 gyda’r nod o gynorthwyo pobl ifanc sydd eisiau datblygu mentrau sy’n cynorthwyo i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

Ers hynny mae Trechu Trosedd yng Ngwynedd a Chlwyd wedi dyfarnu dros 500 o grantiau gyda bron i £250,000 wedi’i fuddsoddi mewn prosiectau ieuenctid yn cynorthwyo dros 35,000 o bobl ifanc gydag ystod amrywiol o brosiectau. Ceir enghreifftiau o’r rhain ar wefan Trechu Trosedd:

www.crimebeatnorthwales.co.uk

Mae’r nawdd wedi cynorthwyo pobl ifanc i wneud gwahaniaeth i gymunedau lleol ar yr un pryd â gweithio gyda thimau plismona lleol i leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Eleni fe wnaeth ein dwy Uchel Siryf sef Stephanie Catherall yng Nghlwyd a Susan Jones yng Ngwynedd ymgymryd â nifer o ymweliadau i weld y prosiectau hyn ar waith a chyfarfod â’r bobl ifanc sy’n gysylltiedig.

Cafodd eu blwyddyn yn eu swydd ei chwtogi gan bandemig y coronafeirws a oedd yn golygu nad oedd y ddwy noson wobrwyo yn gallu digwydd. Roedd hyn yn hynod rwystredig o ystyried y cynllunio a’r paratoi a oedd wedi bod. Yn bennaf oll, nid oeddem yn gallu cydnabod prosiectau, gwirfoddolwyr a sefydliadau yn bersonol.

Bu i ni hefyd fethu mynd i Wobrau Cenedlaethol Trechu Trosedd yn Llundain oherwydd y pandemig. Eleni roedd wedi llwyddo i enwebu prosiect a ariannwyd ar y cyd – ‘Rhannu Straeon’ – am gydnabyddiaeth. Mae ‘Rhannu Straeon’ yn brosiect wedi’i greu a’i ddatblygu gan bobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Gyda chymorth cydweithwyr o Ganolfan Atgyfeirio Cam-drin Rhywiol Amethyst Gogledd Cymru, gwnaeth wyth o bobl ifanc greu ffilm a llyfryn ategol er mwyn cynorthwyo dioddefwyr eraill drwy’r broses cyfiawnder troseddol. Roeddent i fod i fynd i’r seremoni wobrwyo genedlaethol ym mis Mawrth er mwyn derbyn y wobr. Rydym yn gobeithio y bydd y seremoni hon yn gallu cael ei




haildrefnu ar ddyddiad sydd eto i'w gadarnhau.

Yn y cyfamser dyma ddetholiad bach o rai o'r prosiectau ledled Gogledd Cymru sydd wedi derbyn nawdd gan Drechu Trosedd eleni:

**CLWYD**

**Heddlu Bach Wrecsam** - Nod prosiect yr Heddlu Bach yw meithrin gwell cysylltiadau rhwng swyddogion a'r cymunedau maent yn ei wasanaethu. Mae'r tîm ifanc o drechwyr trosedd rhwng 9 ac 11 oed ac yn ddisgyblion Ysgol GG Alexandra yn Wrecsam.

Cafodd y cyw swyddogion lifrai newydd sbon danlli a'u cardiau gwarant eu hunain. Bu iddynt dyngu llw mewn seremoni arbennig yn y pencadlys heddlu rhanbarthol newydd yn Llai ym mhresenoldeb Stephanie Catherall sef Uchel Siryf Clwyd, Arfon Jones sef y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Sacha Hatchett sef Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru.

**Youth Shedz Cymru** - Mae Youth Shedz yn darparu amgylchfyd sy'n meithrin ac yn ddiogel lle gall pobl ifanc ddysgu a phrofi ystod o sgiliau bywyd ac addasrwydd i waith. Mae'r prosiect hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu gwytnwch, gwella hyder a hunan-barch, lleihau ynysu cymdeithasol, a hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant corfforol cadarnhaol. Penderfynodd Youth Shedz Dinbych y byddent yn hoffi sefydlu prosiect argraffu gan ddarparu nwyddau Sied Ieuenctid i'r holl siediau yng Ngogledd Cymru. Gwnaeth nawdd Trechu Trosedd alluogi prynu peiriant argraffu crysau-T sydd wedi galluogi'r grŵp i greu eu nwyddau eu hunain gan gynnwys crysau-T a siwmperi â chwfl.

Cyflwynwyd crys-T Trechu Trosedd i'r Uchel Siryf yr oedd Youth Shedz wedi'i lunio a'i wneud yn arbennig iddi.

**Gang y Tir a'r Ardd** - Ar y cyd ag AVOW, gwnaeth Giang yr Ardd, yn y cae chwarae Antur ym Mhlas Madog dderbyn £500 tuag at gynllun lle bydd 24 o blant 5 oed i 16 oed yn cymryd rhan mewn cymorth prosiect i ddylunio, adeiladu a pheintio potiau planhigion i'w dosbarthu ar draws y gymuned.

Y nod yw gwella ansawdd bywyd y gymuned a gwella dewis bwyd drwy roi cyfle i'r plant a'r trigolion gael llysiau a ffrwythau am ddim. Y syniad yw trawsnewid y tirlun a gwella darnau o dir drwy dyfu bwyd iach. Yn ogystal, bydd y potiau planhigion yn gwella sut fydd y stad yn edrych, gan ei gwneud i edrych yn fwy iach, diogel a glân.

Gwnaeth yr Uchel Siryf dreulio diwrnod braf yn Y Tir, gan gyfarfod â phobl ifanc ac Ymddiriedolwyr o AVOW sy'n goruchwylio'r prosiect.

Dywedodd yr Arolygydd Ardal Darren Whibberley: "Mae hwn yn brosiect a fydd yn helpu magu balchder cymunedol ac mae ganddo'r potensial i annog perchnogaeth."

**Troi Rownd yn Ysgol Plas Derwen** - Gwnaeth Stephanie Catherall, Uchel Siryf Clwyd ymweld â'r ysgol ar ddiwrnod Plant mewn Angen ym mis Tachwedd 2019. Gwnaeth gyfarfod â phobl ifanc a oedd yn elwa o brosiect Drama Therapiwtig Ymyrraeth Gynnar yr oedd Trechu Trosedd wedi rhoi cymorth ariannol iddo. Treuliodd yr Uchel Siryf beth amser yn siarad â'r bobl ifanc a'r staff i weld y manteision yr oedd y rhaglen yn ei roi i'r disgyblion drosti ei hun. Gwnaeth yr Uchel Siryf hyd yn oed gyfarfod â Pudsey a oedd yn ymweld â'r ysgol y diwrnod hwnnw!

**GWYNEDD**

**Prosiect Celf Stryd Penygroes** - Mae pobl ifanc ym Mhenygroes wedi bod yn gweithio gyda'r arlunydd graffiti Andy Birch a'r Gweithiwr Ieuenctid Barry Williams er mwyn creu murluniau yn ac o amgylch y pentref er mwyn darlunio a dathlu'r gymuned a'i hanes. Gwnaeth yr Uchel Siryf ymweld â nhw i weld eu gwaith a chlywed eu hanes. Gwnaeth yr Uchel Siryf hyd yn oed roi cynnig ar gelf stryd ei hun!

**Cynllun Breuddwydion Caernarfon** - Roedd Susan Jones, Uchel Siryf Gwynedd yn falch iawn o fynd i'r noson cyflawniadau blynyddol yng Ngorsaf Heddlu Caernarfon er mwyn cyflwyno tystysgrifau i bobl ifanc y Cynllun Breuddwydion. Clywodd fwy am y gwaith cymunedol maent yn ei

wneud gyda'r tîm plismona lleol ac Iolo Roberts ac Aaron Parry o ADRA. Roedd y bobl ifanc hefyd wedi ail-frandio eu hunain fel 'Clwb y Cofis' er mwyn adlewyrchu'r gwaith maent yn ei wneud yn y gymuned.

**Blodeuo'r Cenedlaethau yn Y Bala** - Gyda chymorth Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd a SCCH Lona Davenport, gwnaeth pobl ifanc yn Y Bala wirfoddoli i ddysgu am sgiliau garddio a bywyd gwyllt, a chreu lle diogel i'r gymuned. Gwnaeth y grŵp greu potiau planhigion i ddod â lliw i'w gardd gymunedol. Gwnaeth SCCH Davenport weithio ar y cyd â nhw er mwyn annog balchder yn eu gwaith a bod yn bobl ifanc da a chyfrifol yn y gymuned.

**Prosiect Poli-dwnnel Bodedern** - Gwnaeth yr Uchel Siryf ymweld â Bodedern yn haf 2019 a gwnaeth gyfarfod â phobl ifanc leol a oedd yn brysur yn clirio tir ac yn adeiladu poli-dwnnel a fydd yn y pen draw yn elwa pawb yn y gymuned, yn hen ac ifanc. Gwnaeth yr Uchel Siryf gyfarfod â phobl ifanc, SCCH a gwirfoddolwyr, gan gynnwys athrawon o'r ysgol uwchradd leol, i weld yr effaith bositif yr oedd y prosiect hwn yn ei gael drosti ei hun.

Rôl yr Uchel Siryfion yw rhoi cymorth gweithredol i'w sir, gan gynnwys y gwasanaethau brys ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Maent yn sicrhau lles Barnwyr yr Uchel Lys sy'n ymweld, yn cefnogi ymweliadau brenhinol ac yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi a hyrwyddo sefydliadau gwirfoddol.

Trechu Trosedd yw elusen swyddogol yr Uchel Siryfion sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc sydd am wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae nawdd Trechu Trosedd yn rhoi cyfle unigryw i bobl ifanc ddefnyddio eu hegni a'u dychymyg i ddatblygu mentrau penodol i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

*Ceir rhestr lawn o grantiau Trechu Trosedd Clwyd a Gwynedd yn yr Atodiad.*

**Os oes gennych syniad da ar gyfer prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc ac yn gymorth i wella cymunedau lleol yna cysylltwch gyda ni ar: info@crimebeatnorthwales.co.uk**




Ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Lleihau Tanau Bwriadol mae PACT unwaith eto wedi ymuno i holi pobl i 'Be a Nice Guy'. Mae grantiau ar gael drwy Ymgyrch BANG er mwyn cynorthwyo mentrau lleol sy'n trin cynnau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod Calan Gaeaf a Noson Guto Ffowc.

Drwy weithio gyda phartneriaid allweddol fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac awdurdodau lleol, yr ydym yn gallu hyrwyddo negeseuon allweddol drwy'r fenter 'Be a Nice Guy'.

Mae wedi'i nodi fod yr agwedd hon, ynghyd â gweithgareddau dargyfeirio wedi'u targedu sy'n ymgysylltu pobl ifanc mewn digwyddiadau hwyliog ac adloniannol, yn gallu bod yn effeithiol iawn. Sicrheir y gall pawb fwynhau eu hunain yn ddiogel.

Am y nawfed flwyddyn yn olynol roeddem yn gallu cynorthwyo amrywiol brosiectau. Er bod ein cyllid yn llawer llai yn 2019 roeddem dal yn gallu cynorthwyo amrywiaeth eang o brosiectau ieuenctid sy'n cynnwys ein SCCH.

*Ceir rhestr lawn o SCCH ac ardaloedd a gefnogwyd yn yr Atodiad.*










# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae gofyn i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob cyfnod ariannol sy'n rhoi safbwynt gwirioneddol a theg o weithgarwch ariannol yr elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae gofyn iddynt ddilyn arfer gorau a:-

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- dweud a yw safonau cyfrifyddu a datganiadau a argymhellir wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau pwysig a ddatgelwyd ac eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail weithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu cywirdeb sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol. Mae'n eu galluogi i ganfod sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n eu galluogi i gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) yr Elusen a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd i'w ryddhau ar 23 Gorffennaf 2020 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**

# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

### Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2020 | Cyfanswm 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU I MEWN | | | | | |
| **Adnoddau i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd** | | | | | |
| Rhoddion, grantiau a nawdd: | 4 | | 93,770 | 93,770 | 103795 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 5,908 | 5,908 | 6,629 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 13,320 | 13,320 | 3,000 |
| Nawdd Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 16,875 | 16,875 | 4,750 |
| Cefnogaeth Mewn Nwyddau Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 26,800 | 26,800 | 28,750 |
| Incwm o fath arall | 7 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| Gweithgarwch am greu cronfeydd: Incwm amrywiol | | | 438 | 438 | 260 |
| Incwm Buddsoddi | | | 97 | 97 | 67 |
| | | 0 | **192,760** | **192,760** | **182,803** |
| ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD | | | | | |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | 5 | | | | |
| **Gweithgareddau elusennol:** Grantiau a Roddwyd | | | 85,075 | 85,075 | 107,787 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | | 6,110 | 6,110 | 5,936 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | | 3,687 | 3,687 | 4,186 |
| **Cyfiawnder mewn Diwrnod:** | | 0 | 94,872 | 94,872 | 117,909 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - costau uniongyrchol | | | 16,596 | 16,596 | 3,643 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - cefnogaeth o fath arall | | | 26,800 | 26,800 | 28,750 |
| **Costau Creu Cronfeydd** | 5 | | 35,552 | 35,552 | 35,552 |
| **Costau Llywodraethu:** PACT | 5 | | 2,562 | 2,562 | 2,030 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | | 234 | 234 | 313 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | | 233 | 233 | 314 |
| CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD | | 0 | 176,849 | 17,849 | 188,511 |
| NET ADNODDAU A DDERBYNIWYD | | | **15,911** | **15,911** | **-5,708** |
| CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN | | | 68,648 | 68,648 | 74,356 |
| | | | | | |
| CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN | | 0 | 84,559 | 84,559 | 68,648 |










# Mantolen

## Ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau presennol** | | | |
| Dyledwyr | 9 | 18,226 | 7,000 |
| Arian yn y Banc | | 83,971 | 77,895 |
| | | **102,197** | **84,895** |
| **Credydwyr** | | | |
| Croniadau | 10 | **17,638** | **16,247** |
| | | 84,559 | 68,648 |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| **Cyfyngedig** | | 84,559 | 68,648 |
| **Anghyfyngedig** | | 0 | 0 |
| | | 84,559 | 68,648 |

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd i'w ryddhau ar 23 Gorffennaf 2020 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Cafodd y polisïau cyfrifyddu eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

### a) Sail Cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon ar sail croniad ac yn unol â'r Datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005.

### b) Cyfrifyddu Cronfeydd

- Mae Cronfeydd Anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr ar gyfer hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.
- Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant wedi'u pennu gan y sawl a'u cyfrannodd.

### c) Adnoddau i Mewn

Caiff yr holl adnoddau i mewn eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm ac y gellir meintioli'r swm yn eithaf manwl gywir. Caiff y polisïau penodol canlynol eu rhoi ar waith mewn perthynas â chategorïau penodol o incwm:

- Derbynnir incwm gwirfoddol drwy grantiau, rhoddion ac anrhegion a chaiff ei gynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan y'i derbynnir. Caiff grantiau, lle nad yw hawl yn amodol ar ddarpariaeth perfformiad penodol ar ran yr elusen, eu cydnabod pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grant.
- Caiff gwasanaethau a chyfleusterau a roddir am ddim eu cynnwys ar eu gwerth i'r elusen lle gellir meintioli hyn.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gynnwys pan mae'n dderbyniadwy.
- Caiff adnoddau a geir o grantiau, os ydynt yn berthnasol i berfformiad a darpariaethau penodol, eu cyfrifyddu wrth i'r elusen ennill yr hawl iddynt gael eu hystyried drwy ei pherfformiad.

### d) Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei gydnabod ar sail gronnus wrth i grantiau ayyb gael eu gwneud. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei gael yn ôl yn ei gyfanrwydd a chaiff ei adrodd fel rhan o'r gwariant y mae'n berthnasol iddo:

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei gweithgareddau a'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cynnal.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys ffioedd a chostau archwilio annibynnol cysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrennir yr holl gostau rhwng categorïau gwariant y DoWA ar sail a ddyluniwyd i adlewyrchu'r defnydd o'r adnoddau. Clustnodir costau perthnasol i weithgaredd penodol yn uniongyrchol a chaiff y gweddill eu dyrannu ar sail briodol e.e. ardal llawr.

## 2. Taliadau i Weithwyr

Ni chafodd unrhyw weithwyr eu talu gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd gwasanaethau Rheolwr Prosiect/Cydlynydd Trechu Trosedd eu cyfrannu gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

## 3. Treuliau a Thaliadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr un o'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill unrhyw daliadau cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod.

Ni ad-dalwyd treuliau'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill yn ystod y cyfnod.





# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 4. Rhoddion, Grantiau a Nawdd:

| | Anghyfyngedig £ | Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2020 £ | Cyfanswm 2019 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | | 31,700 | 31,700 | 29,000 |
| Nawdd/grantiau Cyfiawnder mewn Diwrnod | | 16,875 | 16,785 | 4,750 |
| Llywodraeth Cymru / ART | | 700 | 700 | 1,000 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | | 50,000 | 50,000 | 61,000 |
| CGI UK Ltd | | 10,870 | 10,870 | 11,795 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 5,908 | 5,908 | 6,629 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 13,320 | 13,320 | 3,000 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 500 | 500 | 1,260 |
| **CYFANSWM** | 0 | **129,873** | **129,873** | **118,434** |

## 5. Cyfiawnder mewn Diwrnod - cymorth o fath arall

| | Anghyfyngedig £ | Cyfyngedig £ | Cyfanswm 2020 £ | Cyfanswm 2019 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth sesiynau cefnogi amser cinio | | 1,000 | 1,000 | 2,500 |
| Clwb Ieuenctid Llandudno (ystafell a staff) | | 800 | 800 | 800 |
| Clwb Ieuenctid Dolgellau (neuadd) | | | | 450 |
| Sefydliad Scottish Power | | | | 25,000 |
| Ymddiriedolaeth Moondance | | 25,000 | 25,000 | |
| | 0 | **26,800** | **26,800** | **28,750** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

**6. Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd:** Mae holl grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn yn berthnasol i weithgareddau a phrosiectau cymunedol lleol.

| | Costau Staff £ | Costau Eraill £ | Cyfanswm 2020 £ | Cyfanswm 2019 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| Grantiau PACT a Ddyfarnwyd | | 85,075 | 85,075 | 107,787 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | 6,110 | 6,110 | 5,936 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | 3,687 | 3,687 | 4,186 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - costau prosiectau | | 16,596 | 16,596 | 3,643 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod - cymorth o fath arall | | 26,800 | 26,800 | 28,750 |
| Amser a threuliau staff a roddwyd | | 32,220 | 32,220 | 32,220 |
| Costau swyddfa a roddwyd | | 3,332 | 3,332 | 3,332 |
| | 0 | 173,820 | 173,820 | 185,854 |
| **Costau Llywodraethu** | | | | |
| Ffioedd Archwilio Annibynnol | | 1,200 | 1,200 | 1,200 |
| Ffioedd Amrywiol | | 1,362 | 1,362 | 830 |
| Trechu Trosedd Clwyd | | 234 | 234 | 313 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 233 | 233 | 314 |
| **CYFANSWM** | 0 | 176,849 | 176,849 | 188,511 |






# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 7. Llog

Cyfanswm y llog banc a gafodd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2020 oedd £97.

## 8. Heddlu Gogledd Cymru - Cymorth mewn Ffordd Arall

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Heddlu Gogledd Cymru am eu cymorth parhaus, gan na allai'r Ymddiriedolaeth fodoli'n effeithiol heb y cymorth hwn. Mae HGC wedi cyfrannu'r rhoddion mewn ffordd arall canlynol i gynorthwyo PACT.

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| Amser a threuliau staff a roddwyd | 32,220 | 32,220 |
| Lle swyddfa a roddwyd | 3,332 | 3,332 |
| | 35,552 | 35,552 |

## 9. Trethiant

Fel elusen, mae Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned wedi'i eithrio rhag talu treth ar incwm ac enillion sy'n dod o dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu A256 Deddf Trethiant ac Enillion Trethadwy 1992 os defnyddir y rhain i ddiwallu ei amcanion elusengar.

Nid oes unrhyw drethiant wedi bod yn berthnasol i'r elusen.

## 10. Croniadau Dyledwyr

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| PACT - CGI | 3,820 | 1,500 |
| PACT - SCHTh o ran llogi lleoliad | 438 | |
| Trechu Trosedd Clwyd | 648 | 2,500 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 13,320 | 3,000 |
| | 18,226 | 7,000 |

## 11. Croniadau Credydwyr

| | 2020 £ | 2019 £ |
|---|---|---|
| Costau Gwobrau Trechu Trosedd Clwyd 2018 | | 47 |
| Ffioedd arholwyr | 1,200 | 1,200 |
| PACT - SCHTh o ran llogi lleoliad | 438 | |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 15,000 | 15,000 |
| Costau cludiant Cyfiawnder mewn Diwrnod 2020 | 1000 | |
| | 17,638 | 16,247 |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 12. Datganiad o Gronfeydd ar 31 Mawrth 2020

| | 31/03/19 | Incwm | Gwariant | Trosglwyddiadau | 31/03/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trechu Trosedd Clwyd | 13,016 | 5,908 | 6,344 | | 12,580 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 5,273 | 13,320 | 3,920 | | 14,673 |
| Tîm Lleihau Tanau Bwriadol/Ll.C. | 0 | 700 | 5,260 | 4,560 | 0 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod | 0 | 16,875 | 16,596 | | 279 |
| Cyfiawnder mewn Diwrnod (amrywiol) | 0 | 26,800 | 26,800 | | 0 |
| Cronfa Cyllideb Gyfranogol | 366 | 50,000 | 45,126 | | 5,240 |
| CGI UK Ltd | 0 | 10,870 | | -10,870 | 0 |
| BCUHB | 40,000 | 0 | 0 | | 40,000 |
| Grant Troseddau Casineb SCHTh | 0 | 500 | 500 | | 0 |
| Costau amrywiol - PACT | 0 | 438 | 2,562 | 2,124 | 0 |
| Incwm amrywiol | 0 | 97 | | | 97 |
| Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu | 9,993 | 31,700 | 34,189 | 4,186 | 11,690 |
| | **68,648** | **157,208** | **141,297** | **0** | **84,559** |
| Incwm amrywiol | 0 | 35,552 | 35,552 | | 0 |
| Cronfeydd Anghyfyngedig | 0 | | | | 0 |
| | **68,648** | **192,760** | **176,849** | **0** | **84,559** |














# Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Elusen Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

Adroddaf ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 fel y'i gwelir ar dudalennau 13 i 19.

## Cyfrifoldebau perthnasol yr ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen cynnal archwiliad y flwyddyn hon dan Adran 144(2) Deddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) ac mai'r hyn sy'n angenrheidiol yw archwiliad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon dan adran 145 Deddf 2011;
- dilyn y gweithdrefnau a bennir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) Deddf 2011; a
- datgan a oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw

## Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw eitemau neu ddadleniadau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio unrhyw eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr parthed unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau yr ymgymerir â nhw yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn archwiliad. O ganlyniad i hynny ni roddir barn ynghylch a yw'r cyfrifon yn cynrychioli 'barn wir a theg'. Mae'r adroddiad yn gyfyngedig i'r materion hynny sydd wedi'u hamlinellu yn y datganiadau isod.

## Datganiad yr Archwiliwr Annibynnol

Mewn perthynas â'm harchwiliad, ni ddaeth unrhyw fater i'm sylw:

1. sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw'r gofynion, mewn unrhyw ffordd faterol:
   - cadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 Deddf 2011; a
   - paratoi cyfrifon sy'n cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu ac i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu Deddf 2011.

   wedi'u diwallu;

   neu
2. y dylid, yn fy marn i, tynnu sylw atynt er mwyn galluogi dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

**John Gardner FCA**
**Gardners Accountants Limited**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Tŷ Brynffordd**
**21 Stryd Brynffordd**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 7RD**

Awst 2020

# ATODIAD

| Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach | £ |
|---|---|
| SCCH Paula Stewart Gardd Bywyd Gwyllt Gwerddon, Porthmadog | 250 |
| SCCH Paula Stewart Cynllun Gwarchod Siopau Porthmadog | 50 |
| SCCH Annette Jones Grŵp Gweithredu Ardal Abergele | 100 |
| SCCH Matt Preston CPD Llysfaen | 250 |
| SCCH Wendy Kay Digwyddiad Diogelwch Cymunedol Porthmadog | 108 |
| SCCH Dean Sawyer Cyngor Tref Y Waun | 50 |
| SCCH Nerys Williams Clwb Ieuenctid Penysarn | 245 |
| PC Alyn Smith Pysgodfa Brithyllod Tan y Mynydd | 75 |
| SCCH Mike Griffiths Cyngor Cymuned Glyn Ceiriog | 200 |
| SCCH Sara Owen Prosiect Posteri Diogelwch Ffyrdd Ysgol Craig y Don | 80 |
| SCCH Nerys Williams Ysgol Syr Thomas Jones | 240 |
| SCCH Misha Geurtjens Ysgol David Hughes | 250 |
| Rhingyll Non Edwards Prosiect Ymgysylltu ag Ieuenctid Caernarfon | 250 |
| SCCH Jonathan Digwyddiad Ymgysylltu â Swyddogion Gwirfoddol | 250 |
| SCCH Steve Regan Prosiect Diffibriliwr Llŷn | 300 |
| SCCH Geraint Williams Clwb Pêl Droed Ieuenctid Blaenau Ffestiniog | 250 |
| SCCH Misha Guertjens Prosiect Ieuenctid Porthaethwy | 250 |
| PC Dave Jackson Prosiect Pêl Droed Treffynnon | 250 |
| SCCH Nikki Adams Pals of Pen Prom | 150 |











# ATODIAD

| | |
|---|---|
| SCCH Alison Diwrnod Hwyl Rhos | 290 |
| **Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach** | |
| SCCH Julie Holland Cymdeithas Gweithgareddau Ieuenctid Gwynedd | 250 |
| SCCH Sammie Williams Ysgol Gynradd Bethel | 100 |
| Rhingyll Gwirfoddol Dros Dro Stephanie Jones Cronfa Ymddiriedolaeth SARC | 250 |
| Rhingyll Beth Jones Mae Mor Hawdd - Ymgyrch Atal Trosedd | 338 |
| SCCH Aron Parry Cymdeithas Rhandiroedd Penmachno | 250 |
| SCCH Sabrina Illman-Roberts Cymdeithas Trigolion Maes Emlyn | 250 |
| SCCH Erin Shawcross Ffair Wythnos y Glas Prifysgol Glyndŵr 2019 | 241 |
| PC Tracy Hughes SAR Môn | 250 |
| SCCH Sabrina Illman-Roberts Clwb Rygbi'r Rhyl - Rygbi'r Haf | 250 |
| PC Mel Cartledge Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth - Ysgol Uwchradd Prestatyn | 250 |
| PC Andrew Jackson Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth - Ysgol Uwchradd Caergybi | 250 |
| SCCH Fflur Lloyd-Jones Clwb Criced Llandudno | 250 |
| SCCH Nia Roberts Clwb Cymdeithasol Hafan Elen | 250 |
| SCCH Dave Jones Clwb Bowlio Llanelwy | 120 |
| SCCH Iona Beckmann Caru Amlwch | 250 |
| SCCH Caitlin McGonigle Clwb Ieuenctid Bodedern | 250 |
| SCCH Emma Jones Clwb Gymnasteg Moelwyn | 250 |
| PC Mike Taggart Seminar Cam-drin Domestig Trinwyr Gwallt | 100 |

# ATODIAD

| | |
|---|---|
| Teledu Cymru Digwyddiad Hope Restored Llandudno | 500 |
| SCCH Jenna Bottomley WUMA Cymru | 250 |
| **Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach** | |
| SCCH Iona Beckmann Clwb Cymunedol Bro Trehibion | 80 |
| SCCH Nerys Williams Ffair Mechell | 80 |
| SCCH Sara Owen Cyfeillion Queens Park | 100 |
| SCCH Dave Webster CPD Llandegfan | 250 |
| SCCH Jonathan Peris-Jones Digwyddiad Cadetiaid | 250 |
| SCCH Sioned Williams Clwb Ieuenctid Llangefni | 250 |
| Rhingyll Neal Parkes Twrnamaint Criced Blynyddol HGC - Tlysau | 285 |
| SCCH Shannon Smith Gwella Diogelwch Wrecsam | 250 |
| DC Nadia Hutchinson Ffair Wythnos y Glas Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam | 249 |
| DC Nadia Hutchinson Ffair Wythnos y Glas Prifysgol Bangor | 249 |
| SCCH Dave Jones Prosiect Haf Ieuenctid Llanelwy | 60 |
| Rhingyll Non Edwards Antur Waunfawr | 250 |
| SCCH Emma Jones Canolfan Lesiant Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog | 250 |
| SCCH Jonathan Thomas Clwb Rygbi Ieuenctid Nant Conwy | 250 |
| SCCH  Julie Holland Clwb Pêl Rwyd Arfon Celts | 250 |
| SCCH Nerys Williams Clwb Plant Amlwch | 46 |
| SCCH Julie Holland Gisda Cyf | 150 |













# ATODIAD

| | |
|---|---|
| SCCH Sara Owen Light up Llan | 100 |
| SCCH Bev Owen Menter ‘glow-band’ Nadolig Conwy | 250 |
| Arolygydd Jon Aspinall/TCD Gogledd Gwynedd KSS CRC Cymru | 500 |
| **Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach** | |
| SCCH Lucy Green Tîm dan 7 oed CPD Tref Dinbych | 245 |
| SCCH Matt Preston Diogelwch ffyrdd Cyngor Cymuned Llanddulas | 250 |
| SCCH Debra Devereaux Clwb Pysgota Cei Connah | 245 |
| SCCH Kelly Elliott Clwb Pêl Droed Iau Llanrwst Unedig - Meinciau | 250 |
| SCCH Bev Owen Clwb yr Efail | 200 |
| SCCH Misha Guertjens Prosiect Ieuenctid Brynsiencyn | 250 |
| SCCH Steve Lewis Prosiect Ieuenctid Parc Caia | 250 |
| SCCH Martin Griffiths CPD Ieuenctid Y Waun | 250 |
| SCCH Nikki Adams Clwb Cinio Happy Eaters | 200 |
| SCCH  Alex Aldous Canolfan Gymunedol Tan y Lan | 200 |
| SCCH Gareth Jones Clwb Rygbi Glyn Ceiriog | 250 |
| SCCH Lucia Pritchard Ymgyrch Twighlight Tref Wrecsam | 250 |
| SCCH Kelly Williams Grŵp Llywio Deall Dementia Caergybi | 250 |
| SCCH Alex Aldous Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn | 200 |
| SCCH Sioned Williams Prosiect Ieuenctid Llangefni | 250 |
| DS Dave Evans Clwb Pêl Droed Hope Dragons | 240 |

# ATODIAD

| | |
|---|---|
| SCCH Iona Beckmann Prosiect Deall Dementia Amlwch | 100 |
| SCCH Ashley Jones Hafan Cymru, Bangor | 80 |
| SCCH Matt Preston Diwrnod Cymunedol Llysfaen | 150 |
| SCCH Sophie Jones Menter Gwella Diogelwch Wrecsam | 250 |
| **Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach** | |
| SCCH Gareth Jones Clwb Criced Dolgellau | 250 |
| Pentre Peryglon Cnuoedd Noddedig PACT | 650 |
| Rhingyll Non Prosiect Campfa | 114 |
| SCCH Paula Stewart Bwyd Bendigedig Port | 200 |
| SCCH Dave Jones Galw a Theithio Sir Ddinbych | 50 |
| SCCH Manon Roberts Partneriaeth Maesgeirchen | 200 |
| SCCH Sophie Roberts Cyngor Tref Pwllheli | 100 |
| Rhingyll Dave Broom Cofeb Ynys Arw Caergybi | 200 |
| SCCH Kelly Tatlock Clwb Ieuenctid Llaingoch | 200 |
| SCCH Kelly Williams CIC Digartref | 100 |
| SCCH Mark Holland CPD Nantlle Vale | 240 |
| SCCH Iuean Owen ADRA/Cynllun Breuddwydion Caernarfon | 200 |
| Rhingyll Beth Jones Marcio Beiciau Mae Mor Hawdd | 443 |
| SCCH Dave Madden Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | 250 |
| SCCH Iona Beckmann Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones Amlwch | 50 |














# ATODIAD

| | |
|---|---|
| SCCH Iona Beckmann Caru Amlwch | 250 |
| SCCH Carwyn Gilford Grŵp Pantomeim Benllech | 250 |
| Rhingyll Non Edwards GISDA | 250 |
| PC Alex Higgins Prosiect Ieuenctid Penygroes | 250 |
| Rhingyll Sian Roberts Gemau Stryd Sir y Fflint | 300 |
| **Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach** | |
| SCCH Luke Magness Gwella Diogelwch Wrecsam | 86 |
| Rhingyll Beth Jones Mae Mor Hawdd Cyfnod 2 | 296 |

# ATODIAD

## Grantiau Prif Brosiectau

| Grantiau Prif Brosiectau | £ |
|---|---|
| Centre of Sign Sight Sound | 500 |
| Grŵp Cynefin - Murlun Caernarfon | 2000 |
| Gwobrau PDP 2019 | 1000 |
| Clwb Bocsio Bwcle | 2000 |
| Dinbych yn ei Blodau 2020 | 1000 |
| Gofal Profedigaeth Gogledd Cymru, Prosiect Pobl Ifanc | 2000 |
| Youth Shedz Cymru, Blaenau Ffestiniog | 750 |
| Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen | 1730 |
| Her Llongau Mawr 2020 | 2000 |
| | **16,275** |














# ATODIAD

## Eich Cymuned, Eich Dewis

| | £ |
|---|---|
| Grŵp Cymdeithasol Awtistiaeth | 2426 |
| Digartref, Caergybi | 1000 |
| Friday Night Fitness Ynys Môn | 1800 |
| Antioch (Gogledd Cymru) | 1000 |
| Kind Bay Initiative, Bae Colwyn | 2400 |
| Banc Bwyd Llanfairfechan | 2500 |
| Dinbych yn ei Blodau | 2500 |
| RYA All Afloat Y Rhyl | 2500 |
| Cyfeillion Cerrig Cerrigydrudion | 1000 |
| Art & Soul Tribe, Sir y Fflint | 1000 |
| Cobra Life | 2500 |
| Cyngor Cymunedol Nannerch | 2500 |
| Youth Shedz Cymru | 1000 |
| Antur Waunfawr | 2500 |
| Gisda | 2500 |
| One Love Choir Cais | 2500 |
| Your Space Marches Ltd | 2500 |
| Sefydliad y Cae Ras | 1000 |
| Elusen Aloud | 5000 |
| Gweithdy Dinbych | 5000 |
| | **45,126** |

# ATODIAD

| Ymgyrch B.A.N.G. | £ |
|---|---|
| SCCH Debbie Devereaux Aura Cymru, Glannau Dyfrdwy | 250 |
| SCCH lana Kelleher-Lightwood Cyngor Cymuned Gwersyllt | 350 |
| SCCH Sarah Phillips Prosiect Ieuenctid Tanyfron | 290 |
| SCCH Catherine Griffiths-Hughes / Lydia Edwards Prosiect Ieuenctid Owrtyn | 250 |
| SCCH Stephen Lewis The Venture | 250 |
| SCCH Stephen Lewis Cyngor Cymuned Brychdyn | 250 |
| SCCH Ryan Jones Prosiect Ieuenctid Brynteg | 250 |
| SCCH Sarah Phillips Prosiect Ieuenctid Coedpoeth | 260 |
| SCCH Nicola Jones Gwasanaeth Ieuenctid Conwy | 300 |
| PC Kelly Evans Prosiect Ieuenctid Bae Colwyn | 250 |
| SCCH Green; Jones Cymundod Crefftwyr, Prestatyn | 250 |
| SCCH Steve Gunning Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych | 250 |
| SCCH Nerys Williams Clwb Ieuenctid Caergybi | 250 |
| SCCH Caitlin McGonigle Prosiect Ieuenctid Caergybi a Bodedern | 250 |
| SCCH Julie Broadhead / SCCH Ashley Jones Dragon Raiders, Gwynedd | 210 |
| SCCH Mark Hughes Cymdeithas Gweithgareddau Ieuenctid, Porthmadog | 250 |
| SCCH Mark Holland Hwb Westend | 250 |
| Insp. Dana Baxter Dime One | 250 |
| SCCH Siwan Humphries Partneriaeth Maesgeirchen | 250 |
| SCCH Manon Roberts Clwb Byw yn Iach, Bangor | 250 |
| SCCH Dai Hughes / SCCH Elliw Williams Prosiect Ieuenctid Gorsaf Dân Y Bermo | 100 |
| | **5,260** |














# ATODIAD

## Trechu Trosedd Clwyd

| | £ |
|---|---|
| Prosiect Let Us Dare yn y Rhyl | 750 |
| Dragon Riders Rhyl - Traciau BMX ar Gors | 500 |
| Llangollen Young Uns | 500 |
| The Land Garden Gang | 500 |
| Dyddiau Hwyl Coedwig Ty Mawr | 500 |
| Keep Safe in Gwersyllt - Cyngor Cymuned Gwersyllt | 350 |
| Coed-llai/Penarlâg - Prosiect Aura | 400 |
| Uned Atgyfeirio Allgymorth Disgyblion Plas Derwen Rowleys Drive | 500 |
| Dinbych yn ei Blodau | 300 |
| Cysylltiadau Cymunedol Ysgol Maes Hyfryd | 460 |
| Ysgol Cynfran - Prosiect KiVa | 500 |
| Ysgol Treffynnon - ‘Get Inspired’ | 500 |
| ‘Take on Art’ Clwb Ieuenctid Llandudno | 350 |
| | **5,936** |

# ATODIAD

| Trechu Trosedd Gwynedd | £ |
|---|---|
| Hanging out the Fires - Blaenau Ffestiniog | 500 |
| Celf Stryd Penygroes | 350 |
| Sesiynau Ieuenctid yn yr Haf yn yr Hyb | 300 |
| Bodedern - Rhoi'n ôl i'r Gymuned | 150 |
| Blodeuo'r Cenedlaethau - Y Bala | 500 |
| Ysgol Glancegin - KIVA | 500 |
| Ysgol Borth y Gest - Ysgol Goedwig | 255 |
| Prosiect Ieuenctid Aberdaron | 250 |
| CPD Nantlle Vale - Tîm dan 8 oed | 240 |
| Llechi Mynydd | 342 |
| Prosiect Ieuenctid Llangefni | 400 |
| Addasiad o ran prosiect a ganslwyd 2018/19 | -100 |
| | **3,687** |














# ATODIAD

**Hoffai'r Ymddiriedolwyr estyn eu diolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth yn ystod y flwyddyn:**

| |
|---|
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Tîm Lleihau Tanau Bwriadol Gogledd Cymru |
| CGI UK Ltd |
| Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug |
| Ymddiriedolaeth Moondance |
| Ynadon Gogledd Cymru |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |